COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 15 MEDI 2021, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick a/ac KJ Watts – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | DK Edwards | J Gebbie |
| T Giffard | CA Green | DG Howells | RM James |
| B Jones | M Jones | JE Lewis | JR McCarthy |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | KL Rowlands |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | SR Vidal | MC Voisey |
| CA Webster | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

NA Burnett, SK Dendy, RM Granville, M Hughes, A Hussain, MJ Kearn, DRW Lewis, JC Radcliffe, SG Smith, JH Tildesley MBE, E Venables, LM Walters, DBF White, PJ White a/ac RE Young

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

567. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau o fudd canlynol:-

Swyddog Monitro - Budd rhagfarnllyd yn Eitem 13 ar yr Agenda, a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Y Cynghorydd G Howells - Budd personol yn Eitem 10 ar yr Agenda gan ei fod yn adnabod dau o'r unigolion y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad.

Y Cynghorydd RM James - Budd personol yn Eitem 8 ar yr Agenda gan fod ei wraig yn Gadeirydd Panel Maethu'r Cyngor.

Y Cynghorydd E Venables - Budd personol yn Eitem 9 ar yr Agenda fel Ynad sy'n gwasanaethu.

Y Cynghorydd M Jones - Budd personol yn Eitem 9 ar yr Agenda fel Ynad sy'n gwasanaethu.

568. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor, dyddiedig 21 Gorffennaf 2021, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir, ar yr amod ei fod yn cael ei nodi mai'r Cynghorydd JC Spanswick oedd y Cadeirydd yn y cyfarfod ac nid y Cynghorydd K Watts, fel yr adlewyrchwyd yn y Cofnodion.

569. RHAGLEN O GYFLWYNIADAU I GYFARFODYDD Y CYNGOR YN Y DYFODOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a'i bwrpas oedd hysbysu'r Aelodau am y rhaglen arfaethedig o gyflwyniadau oedd i gael eu cyflwyno i gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol yn 2021/22.

Atgoffodd ef yr Aelodau fod y Cyngor wedi bod yn gyfarwydd â derbyn cyflwyniadau o bryd i'w gilydd gan ei randdeiliaid allweddol yn y gorffennol.

Yng nghyfarfod y Cyngor heddiw, byddai'r Aelodau'n derbyn cyflwyniad gan Brif Weithredwr O'r Cymoedd i'r Arfordir (V2C).

Mae'r cyflwyniadau arfaethedig canlynol i fod i gael eu cyflwyno i gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol, yn ystod 2021/22:-

Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru - 17 Tachwedd 2021.
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg – 15 Rhagfyr 2021.
Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig (SATC) - 23 Chwefror 2022.
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru - 9 Mawrth 2022.

Dywedodd y gallai sesiynau gyda Gwahoddedigion Allanol fod yn destun peth newid, yn dibynnu ar p'un a oeddent ar gael neu beidio ar y dyddiadau a restrir uchod.

Bydd Dadleuon Chwarterol y Fwrdeistref Sirol yn cael eu hystyried fel rhan o fusnes agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor dyddiedig 20 Hydref 2021 a 19 Ionawr 2022, meddai'r Prif Weithredwr wrth derfynu.

Yna gofynnodd y Maer i Jo Oak, Prif Weithredwr V2c roi cyflwyniad ar waith V2c ynghyd ag ychydig o fideos byr ynghylch cynnydd, yn enwedig yn ystod cyfnod Covid-19.

Ymdriniai'r cyflwyniad â'r thema 'Cydweithio ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr Well - Cryfhau Perthynas er budd ein Cymunedau Lleol a Chymru.'

Esboniodd, fel rhan o Raglen Troi Rownd V2c, mai ei phrif flaenoriaethau oedd:-

- Atgyweirio
- Cartrefi Gwag
- Addasiadau
- Cwynion, a
- Chydymffurfio

Rhoddodd y cyflwyniad beth gwybodaeth ystadegol ar gynnydd yn y meysydd uchod, ynghyd â data cysylltiedig perthnasol arall.

Esboniodd Prif Weithredwr V2c hefyd fod y sefydliad yn gweithio'n agos gyda datblygwyr adeiladau newydd, er mwyn rhoi rhywbeth yn ôl i gymunedau yn yr ardaloedd lle roedd datblygiadau preswyl newydd yn cael eu hadeiladu.

Roedd V2c wedi ymgynghori â chydweithwyr a rhanddeiliaid ynghylch y ffyrdd a'r modd yr oedd angen newid gweithio mewn partneriaeth er gwell, gan ystyried materion allweddol fel:

1. Gweithio Hyblyg
2. Lleoliadau Gweithio ac Amgylcheddau
3. Lles cydweithwyr, a mwy

Roedd V2c bellach yn y broses o adolygu adborth mewn perthynas â'r mentrau hyn, ychwanegodd Prif Weithredwr V2c.

Yna cyfeiriodd at raglen "Cartrefi Newydd" V2c ar gyfer 202102022, gyda chynlluniau ar gyfer datblygiadau Eco-gyfeillgar newydd, gan gymryd Agenda Datgarboneiddio'r Cyngor i ystyriaeth. Câi'r mathau hyn o ddatblygiadau eu cynllunio i'w hadeiladu yn Ffordd yr Eglwys Gogledd Corneli, Heol Maesteg Tondu, Heol Ewenni Pen-y-bont ar Ogwr, Rhodfa Woodland Porthcawl, Rhodfa Brocastle Waterton, a Pharc Derwen, Coety.

Yna ymdriniodd Swyddogion V2c â Chynllun Cyflenwi Rhaglen (CCRh) Grant Tai Cymdeithasol (GTC) 2021, gyda gofyniad Grant oedd yn gyfanswm o £32,478,981. Mewn perthynas â hyn, ystyriwyd Cyflwyniadau Cynlluniau Datblygu Rhaglen ar gyfer: -

Heol y Groes, Pencoed - 24 Cartref
Ffordd yr Orsaf, Porthcawl - 20 Cartref
Llys Rhydychen Parth 1, Cwm Ogwr - 6 Cartref
Safle Ysgol Gynradd Blaen Llynfi, Caerau - 23 Cartref
Cartref Gofal Glanyrafon, Ynysawdre - 35 Cartref (caffael yn unig)
Safle DCWW, Cefn Cribwr - 16 Cartref (caffael yn unig)
15nr o Gaffaeliadau oddi ar y silff - 15 cartref
Sunnyside House, Pen-y-bont ar Ogwr - 31 Cartref
Arcêd Nolton, Pen-y-bont ar Ogwr - 43 Cartref
Sax, Pen-y-bont ar Ogwr - 36 Cartref

Tynnodd cynrychiolydd V2c sylw hefyd at gyfnewidiad tir newydd y sefydliad gyda'r Cyngor, fel rhan o Brosiect Ysgol Marlas.

Yn dilyn hyn, rhoddodd Prif Weithredwr V2c grynodeb o Adroddiad Adolygiad Blynyddol V2c, oedd yn rhoi manylion Datganiadau Ariannol ac Adolygiad Strategol V2c.

I gloi, roedd ffocws cyfredol Prif Weithredwr V2c yn ymwneud â:

- Grant Tai Cymdeithasol o £15.8 miliwn ar gyfer adeiladu 100 cartref ar gyfartaledd bob blwyddyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr am y dyfodol rhagweladwy
- £9.1 miliwn i'w wario ar atgyweiriadau a gwelliannau cynlluniedig

Esboniodd fod gweithio mewn partneriaeth, megis gyda Chadw Cymru'n Daclus ac ar gyfer darparu cynlluniau plannu coed mewn datblygiadau tai, yn allweddol i'r Gymdeithas Dai wrth symud ymlaen.  Yn yr un modd, roedd darpariaeth barhaus Banciau Bwyd, yn ystod y pandemig.

Gofynnodd Aelod beth oedd y sefyllfa gyfredol mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni oedd yn cael ei ddarparu mewn cartrefi, yn enwedig mewn Tai Cymdeithasol yr oedd y deiliaid oedd yn byw ynddynt yn aml ar incwm isel.

Cadarnhaodd cynrychiolydd V2c fod rhaglen wedi'i chynllunio i wella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi V2c a'u bod yn rhan o grŵp cydweithredol oedd yn cael eu cefnogi drwy arian grant gan Lywodraeth Cymru i'r diben hwn ac mewn ffordd gost-effeithiol er budd deiliaid yr eiddo.

Gofynnodd Aelod am yr 16 o fflatiau Rhent Cymdeithasol a'r 7 eiddo oedd yn mynd i gael eu hadeiladu ym Mharc Derwen. Gofynnodd pryd y byddai'r rhain yn barod i'w meddiannu a hefyd a fyddai'r fflatiau'n cael eu dyrannu yn unol â rhestr aros am dai y Cyngor.

Cadarnhaodd cynrychiolydd V2c y byddai'r holl anheddau hyn yn barod i'w meddiannu erbyn diwedd y flwyddyn ac y byddai'r fflatiau'n cael eu gosod ar yr un sail â rhestr aros y Cyngor.

Tynnodd Aelod sylw at y ffaith fod preswylwyr oedd yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn difetha llawer o eiddo V2c ar safleoedd datblygu lle roedd pobl yn byw, oedd yn achosi niwsans ac weithiau'n creu gwrthdaro gyda thrigolion eraill oedd yn byw mewn eiddo mewn ystadau a datblygiadau cyfagos. Weithiau, roedd hyn wedi arwain at yr Heddlu'n ymchwilio ac ymyrryd. Teimlai ef y dylai V2c roi mwy o gefnogaeth mewn achosion fel hyn.

Dywedodd cynrychiolydd V2c fod y cyfnod clo o ganlyniad i Covid-19 wedi dwysáu problemau fel y rhai uchod, gan fod pobl wedi cael eu cyfyngu yn eu heiddo a bod y pandemig hefyd wedi achosi i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth gael eu tynnu'n ôl ar y dechrau. Fodd bynnag, roedd y Gymdeithas yn cymryd materion fel hyn yn ddifrifol iawn ac roedd yn gweithio gyda phobl fel y Cyngor, yr Heddlu a Rheoli Troseddwyr i geisio lleihau'r achosion hyn. Bu swyddogion o V2c hefyd yn ymgysylltu â'r trigolion, er mwyn eu hannog i roi gwybod am unrhyw broblemau o'r fath. Pe bai unrhyw gwynion o'r fath yn parhau ar ôl i denantiaid gael eu rhybuddio am eu hymddygiad gwrthgymdeithasol, yna byddent yn dilyn achos cyfreithiol. Yn anffodus, roedd iechyd a lles pobl wedi dioddef ers dechrau Covid-19, oedd wedi peri i iechyd pobl oedd yn dioddef o gamddefnyddio alcohol neu sylweddau a phroblemau iechyd meddwl ddirywio. Mewn achosion fel hyn, serch hynny, roedd preswylwyr o'r fath yn cael eu hatgyfeirio i gael cefnogaeth broffesiynol ar gyfer y problemau hyn. Anogai hi unrhyw Aelod i ddod â chwynion yr oedd wedi eu derbyn mewn perthynas â'r materion hyn i sylw V2c.

Daeth y ddadl ar yr eitem hon i ben gyda'r Aelodau yn annog V2c i ymateb yn gyflymach i gwynion o bob math a natur pan gaent eu gwneud ac i barhau i wella ffyrdd o ymgysylltu â Chwsmeriaid, gan gynnwys mewn cymunedau a ystyrid yn 'unig', h.y. Ynysawdre a thenantiaid hŷn, mwy anodd eu cyrraedd.

PENDERFYNWYD:

1) Bod y Cyngor yn nodi y bydd rhaglen o gyflwyniadau yn cael ei darparu gan bartneriaid y Cyngor a Swyddog S151 y Cyngor, fel y cyfeiriwyd ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, yn ystod 2021/22.

2) Ei fod yn nodi ymhellach y cyflwyniad a roddwyd heddiw gan Brif Weithredwr ac aelodau tîm V2c.

570. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Mae'n bleser mawr gennyf gyhoeddi enwau'r Maer Ieuenctid a'r Dirprwy Faer Ieuenctid am eleni. Y Maer Ieuenctid fydd Xander Payne o Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath a'r Dirprwy Faer Ieuenctid yw G Williams o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'r ddau wedi bod yn rhan o'r cyngor ieuenctid ers ychydig o flynyddoedd. Enillodd G Williams Wobr Diana am ei Hyfforddiant ymwybyddiaeth Trawsrywedd ac mae'n helpu gyda'n Grŵp YPOP LGBTQIA (YPOP yw enw'r Grŵp LGBTQIA Ieuenctid (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Holi, Rhyngrywiol, Arywiol) yr ydym yn ei redeg yn rhithiol ar hyn o bryd ar nos Lun rhwng 5 a 6 p.m.).

Mae Xander yn un o Lysgenhadon Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr ac mae hefyd yn gobeithio sefyll fel ein cynrychiolydd yn Senedd Ieuenctid Cymru. Rydym yn dymuno'r gorau i'r ddau ohonyn nhw ar gyfer y flwyddyn i ddod a'u huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn longyfarch pencampwr Paralympaidd Pen-y-bont ar Ogwr, Aled Sion Davies, am gemau llwyddiannus arall eto ac am gynrychioli Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru ar Lwyfan y Byd. Mae Aled wedi ennill ei drydedd medal aur Baralympaidd, y tro hwn yn nigwyddiad taflu maen i ddynion F63 yn Tokyo ac roedd hefyd yn gyd-gapten tîm Paralympaidd Prydain Fawr. Mae wedi bod yn llysgennad gwych dros chwaraeon Pen-y-bont ar Ogwr a'r chwaraeon Paralympaidd a bydd yn awr yn edrych tuag at Baris ymhen tair blynedd. Mae Aled yn un o linell hir o baralympiaid llwyddiannus o Ben-y-bont ar Ogwr a bydd yn sicr wedi ysbrydoli paralympiaid y dyfodol hefyd.

Dros gyfnod yr haf ers ein cyfarfod diwethaf, rwyf wedi cael y pleser o fynychu nifer o ddigwyddiadau ynghyd â phen-blwydd priodas 60 a 65. Roedd yn wych gweld y gwaith sy'n mynd ymlaen fel rhan o'n Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (SHEP) yn Ysgol Gyfun Cynffig a Choleg Cymunedol y Dderwen. Fe wnes i hefyd fwynhau cael cinio ysgol gyda'r plant yn y digwyddiadau hyn.

Euthum i Lyfrgell Pencoed ar gyfer lansiad cynllun Benthyg IPad Canolfan Gydweithredol Cymru sydd ar gael i Ofalwyr yn y Fwrdeistref Sirol. Cynllun gwych ac un y gellir cael mynediad ato drwy ein llyfrgelloedd. Dysgais hefyd adnodd ar-lein mor wych sydd gennym yn awr yn ein llyfrgelloedd gyda mynediad am ddim at gylchgronau.

Ddiwedd mis Awst bûm yn Ras Hwyl flynyddol Coedwigaeth Gilfach Goch ynghyd â Maer RhCT ac roedd nifer dda yn bresennol gyda nifer fawr o blant yn cymryd rhan. Cyflwynwyd medalau i bawb a gymerodd ran gyda chwpanau i'r rheiny oedd yn y safle cyntaf a'r ail safle mewn 3 chategori oedran.

Ar 26 Awst am 8.10 y bore, bu'r Faeres a minnau yng Ngwasanaeth Coffa blynyddol Parc Slip ac roedd yn deyrnged deimladwy i'r 112 o ddynion a bechgyn a gollodd eu bywydau yn y ffrwydrad ofnadwy a ddigwyddodd ym 1892, a darllenwyd enwau pob un ohonynt gyda'r Arweinydd yn rhan o'r grŵp o bobl oedd yn darllen yr enwau allan.

Dechreuodd mis Medi gydag ymweliad ynghyd â'r Arweinydd â dathliadau hanner can mlynedd Clwb Garddio Trelales ac roedd yn wych gweld rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd gyda'r arddangosfa hyfryd o flodau a llysiau, a darparwyd te hufen hyfryd. Roedd y Cynghorydd Pam Davies hefyd yn bresennol a diweddodd y tri ohonom yn ymuno â'r clwb garddio fel aelodau.

Ddydd Iau, y 9$^{fed}$ o Fedi roedd yn Ddiwrnod Baner 999 ac ynghyd â'r Arweinydd a'r Uchel Siryf fe godasom ni'r faner yn y Swyddfeydd Dinesig er anrhydedd i'r 7,500 o

weithwyr gwasanaeth brys sydd wedi colli eu bywydau wrth gyflawni eu dyletswydd ac fe wnaethom gynnal 2 funud o ddistawrwydd er anrhydedd iddynt.

O ran codi arian ar gyfer y ddau grŵp yr wyf yn eu cefnogi (Bechgyn a Dynion a Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr), gohiriwyd y Skydive mewn tandem gyda'r Faeres oherwydd y tywydd ym mis Gorffennaf ac mae bellach i fod i ddigwydd ddydd Sadwrn, y 27ain o Dachwedd 2021. Ddim yn siŵr pa obaith sydd yna am awyr glir, ond croesi bysedd. Os na chaiff ei gynnal ar y dyddiad hwnnw, yna bydd yn cael ei drefnu ar gyfer Mawrth 2022. Diolch yn fawr i'r rhai sydd wedi noddi'r Skydive hyd yma ac nid yw hi byth yn rhy hwyr i roi rhodd drwy wefan y Cyngor ar dudalen y Maer.

Rwy'n gobeithio cyn bo hir cyhoeddi bwffe Elusennol Cyn y Nadolig yng Nghlwb Rygbi Pen-y-bont ar Ogwr (Cae'r Bragdy) lle bydd bwffe, hypnotydd doniol ynghyd â cherddoriaeth ac adloniant i ddilyn, ar ddiwedd mis Tachwedd. Bydd tocynnau ar gael yn fuan.

Hoffwn dynnu eich sylw at eitem o fusnes. Gofynnwyd am i gyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 3, a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher, y 29ain o Fedi 2021, gael ei symud i ddydd Llun y 4ydd o Hydref. Gyda chytundeb y Cadeirydd, gweithredwyd hyn ac anfonwyd apwyntiad calendr newydd ac felly gofynnir i'r Aelodau nodi'r newid.

Yn olaf, ac i ddiweddu ar nodyn cadarnhaol, hoffwn longyfarch y Cynghorydd Cheryl Green a'i gŵr Tom ar ddathlu pen-blwydd aur eu priodas yn ddiweddar, rydym i gyd yn mynegi ein dymuniadau gorau ar gyrraedd y garreg filltir nodedig hon.

I'r Cynghorydd Stephen Smith a'i bartner Gemma hoffwn ddweud llongyfarchiadau ar eich priodas, dymunwn y gorau i chi am ddyfodol hir a hapus gyda'ch gilydd.
<u>Yr Is-arweinydd</u>

Fel y gwyddoch, mae gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru eisoes, ac fe wnaethom godi'n gyflym o 46 y cant yn ôl yn 2010 i'n 69 y cant cyson, presennol.

Yn awr, mae'r ffigurau diweddaraf wedi datgelu bod mwy na 155,000 o dunelli o wastraff wedi cael eu hailgylchu a'u dargyfeirio oddi wrth safleoedd tirlenwi dros y pedair blynedd ddiwethaf.

O fewn y ffigur hwnnw mae ychydig dros 26,000 o dunelli o bapur a cherdyn, 17,500 o dunelli o wydr, 12,000 o dunelli o blastig, 7,700 o dunelli o fetel, a 3,700 o dunelli o wastraff trydanol.

Er mwyn eich helpu i ddychmygu hynny, dywedir wrthyf ei fod yn cyfateb i bwysau 26,000 o eliffantod, a bod pob person, ar gyfartaledd, wedi cynhyrchu 856kg o wastraff yn ystod y cyfnod o bedair blynedd.

Mae'r cynllun bagiau porffor wedi ailgylchu mwy na 4,350 tunnell ac wedi trosi ffibrau seliwlos yn fyrddau ffibr, paneli acwstig a mwy, tra mae 32,000 o dunelli o fwyd wedi'u trosi'n drydan i bweru ein cymunedau lleol a chynhyrchu gwrtaith.

Mae ein tîm Strydoedd Glanach wedi clirio ychydig dros 4,000 tunnell o wastraff a gafodd ei luchio'n anghyfreithlon, tra mae mwy na 3,200 tunnell o wastraff gardd wedi'i gludo i'w gompostio.

Rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno bod y rhain yn ffigurau trawiadol iawn, a chyda pharatoadau terfynol hefyd ar y gweill ar gyfer agor y ganolfan ailgylchu gymunedol newydd yn y Pîl, maent yn debyg o godi hyd yn oed yn uwch, yn enwedig yn awr gyda

chontractwr newydd yn ei le, fydd yn ailgylchu gwastraff a gesglir o finiau sbwriel cyhoeddus.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu i wneud hyn yn gymaint o lwyddiant, ond yn enwedig casglwyr Kier sy’n cadw'r gwasanaeth i redeg drwy gerdded rhwng saith a deng milltir a chludo hyd at bedair tunnell o wastraff bob dydd, a'n trigolion lleol sydd wedi gwneud ymdrech ailgylchu mor wych.

Hoffwn hefyd atgoffa aelodau y bydd ein hymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb yn cael ei lansio ddydd Llun nesaf pan fyddwn unwaith eto yn gwahodd trigolion lleol i'n helpu i ddatblygu ein blaenoriaethau gwariant ar gyfer 2022-23.

Y tro hwn, bydd yr ymgynghoriad ar y gyllideb yn canolbwyntio ar weledigaeth tymor hwy ar gyfer y fwrdeistref sirol tra’n parhau i gwmpasu meysydd traddodiadol fel buddsoddi mewn ysgolion, ffyrdd, prosiectau adfywio, cynlluniau ynni, lefelau treth gyngor, cefnogaeth i fusnesau, twristiaeth a'r economi, sut y gellir datblygu gwasanaethau ar-lein ymhellach, a mwy ohonynt.

Mae'r ymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb yn elfen bwysig yn ein hymdrechion i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n iawn i'n cymunedau, ac rwy'n siŵr y bydd ar aelodau eisiau annog eu hetholwyr i gymryd rhan a dweud eu dweud.

Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn amrywiol ffurfiau, a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb fydd 14 Tachwedd 2021. Bydd mwy o fanylion ar gael yn fuan, gan gynnwys ar dudalen ymgynghori gwefan gorfforaethol y Cyngor.

<u>Aelod y Cabinet – Cymunedau</u>

Bydd yr aelodau'n gwybod bod ein rhaglen fuddsoddi gwerth £2.7 miliwn yn y rhwydwaith priffyrdd lleol yn parhau ac yn gwneud cynnydd cryf ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae rhaglen fuddsoddi eleni yn targedu 40 o ffyrdd lleol. Er na ellir osgoi peth anghyfleustra dros dro, gwneir pob ymdrech i darfu cyn lleied â phosibl, ac i gwblhau'r gwaith mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl.

Rwy’n siŵr y bydd yr aelodau hefyd yn croesawu’r newyddion bod nifer o gaeau chwarae i blant ar fin elwa o raglen adnewyddu gwerth £700,000, fydd yn caniatáu i fwy na 30 o gaeau chwarae dderbyn buddsoddiad y mae arnynt ei wir angen.

Bydd y cyfnod cyntaf hwn yn cychwyn yn gynnar y flwyddyn nesaf a bydd yn targedu caeau chwarae yn Abercynffig, Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, Bryncethin, Caerau, Cefn Cribwr, Cefn Glas, Corneli, Coetrahen, Tre Ifan, Mynydd Cynffig, Pencoed, Llangeinor, Trelewis, Nant-y-moel, Cwm Ogwr, Pen-y-Fai, Notais a Melin Wyllt.

Bydd y gwaith yn amrywio o ailwampio cyffredinol i ail-osod arwynebau mwy diogel a gosod offer newydd.

Rydym yn edrych am gyllid ar gyfer cyfnod nesaf y cynllun hwn, ac edrychaf ymlaen at ddod â manylion pellach i chi yn fuan.

Yn olaf, hoffwn gadarnhau mai Clwb Pêl-droed Carn Rovers yw'r clwb chwaraeon diweddaraf i gwblhau trosglwyddiad ased cymunedol yn llwyddiannus.

Maent wedi ymgymryd â rheoli Pafiliwn Cwm Garw a'r Meysydd Chwarae yng Nghwm Garw ar ôl cytuno ar brydles 35 mlynedd gyda'r Cyngor.

Mae cyllid o bron i £11,000 yn cael ei ddarparu i'w cynorthwyo i wneud gwelliannau, ac mae cyfraniad pellach o £10,000 yn cael ei ddarparu i gynorthwyo i brynu offer cynnal a chadw caeau newydd.

Hoffwn longyfarch y clwb, a chymryd y cyfle i annog sefydliadau eraill i ddod i weld sut y gallent weithio gyda ni i amddiffyn a gwella cyfleusterau cymunedol eraill yn eu hardaloedd.

Aelod y Cabinet - Addysg ac Adfywio

Ar draws y fwrdeistref sirol, mae disgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol yn dilyn un o'r cyfnodau a wnaeth, yn anochel, amharu fwyaf ar addysg yr ydym wedi ei weld erioed.

Mae ysgolion a swyddogion y Cyngor wedi ymdrechu i'r eithaf i geisio lleihau'r aflonyddwch hwn, ac wedi gwneud gwaith gwych o dan amgylchiadau anodd a heriol iawn.

Drwy gydol y cyfan, iechyd, diogelwch a lles disgyblion fu ein prif flaenoriaeth o hyd. Mae hyn yn parhau i fod yn wir, ac mae eu dychweliad i'r ysgol wedi cael ei gefnogi mewn nifer o ffyrdd.

Er nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth yn rheolaidd ar gyfer staff na dysgwyr, mae ysgolion a lleoliadau addysgol eraill wedi gallu penderfynu sut y dylid eu defnyddio mewn meysydd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol, megis mewn llyfrgelloedd ysgolion, ystafelloedd cyffredin a mwy.

Yr eithriad fu trafnidiaeth ysgol, lle mae'n ofynnol i ddisgyblion ym Mlwyddyn Saith ac uwch wisgo gorchuddion wyneb wrth deithio ar gerbydau cludiant ysgol.

Gofynnwyd i bob disgybl ysgol uwchradd gynnal prawf llif ochrol cyn ei ddiwrnod cyntaf yn ôl, a pharhau i wneud hynny ddwywaith yr wythnos wedi hynny.

Mae gan ysgolion hefyd amrywiaeth o brosesau penodol ar waith ynghyd ag asesiadau risg, gweithdrefnau hylendid, awyru digonol a mwy.

Er mwyn bod o gymorth i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr, mae Cwestiynau a Ofynnir yn Aml wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, sy'n ymdrin â materion yn amrywio o wisgoedd a chinio ysgol i gludiant ac iechyd a diogelwch.

Os bydd risgiau lleol yn wahanol i sgôr y risg genedlaethol, byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion a phartneriaid i roi mesurau ychwanegol ar waith i flaenoriaethu iechyd, diogelwch a lles parhaus yr holl ddisgyblion.

Aelod y Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant

Bydd yr aelodau'n gwybod bod galw mawr o hyd am lety dros dro ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Er mwyn helpu i ateb y galw hwn, mae'r cyngor wedi ymrwymo i bartneriaeth newydd gyda Chartrefi Hafod ar gyfer cynllun prydles-rhent preifat newydd.

Nod y cynllun yw recriwtio landlordiaid preifat, a phrydlesu eu heiddo i'w ddefnyddio fel llety dros dro i bobl ddigartref.

Gyda chytundebau prydles rhwng un a thair blynedd, bydd landlordiaid yn derbyn incwm rhent wedi ei warantu drwy gydol y contract, fydd yn cael ei dalu bob mis mewn ôl-ddyledion.

Maent yn parhau i fod yn gyfrifol am yr holl atgyweiriadau strwythurol ac allanol a gosodiadau a ffitiadau, a rhaid iddynt hefyd sicrhau bod gwiriadau diogelwch nwy a thrydan perthnasol yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Fodd bynnag, gall Cartrefi Hafod gynorthwyo gyda hyn, ac mae'r holl eiddo sy'n cymryd rhan yn cael ei reoli'n llawn ac yn cael ei archwilio'n rheolaidd.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gwasanaeth atgyweirio rownd y cloc, dim ffioedd sefydlu, cynnal a chadw gerddi am ddim a mwy, y cwbl yn cael eu darparu heb unrhyw gost ychwanegol i'r landlord.

Yn ogystal â darparu incwm a pharhau i ddefnyddio adeiladau, nod y cynllun yw lleihau digartrefedd, a darparu cartrefi dros dro y mae angen mawr amdanynt ar gyfer teuluoedd ac unigolion wrth iddynt ddisgwyl am lety parhaol.

Gobeithio y bydd yr aelodau’n rhoi eu cefnogaeth i’r cynllun hwn, ac y byddwch yn cynghori unrhyw landlordiaid yn ardaloedd eich ward i ddod i wybod mwy drwy ymweld â gwefan Cartrefi Hafod.

<u>Y Prif Weithredwr</u>

Cyflwynais adroddiad i'r Cabinet ddoe lle yr amlinellais y cynnydd sydd wedi'i wneud o amgylch model gweithredu'r cyngor yn y dyfodol, ac roeddwn i'n meddwl y byddai'r aelodau'n falch i gael gwybodaeth pe bawn i’n mynd dros peth o’r cynnydd hwnnw yma.

Fel y gwyddoch, yn ystod pandemig y coronafeirws, cawsom ein hunain mewn sefyllfa lle roedd yn rhaid i ni addasu'n gyflym iawn i amgylchiadau oedd yn newid yn gyflym.

Roedd y cyfnod clo yn golygu bod yn rhaid symud mwyafrif helaeth staff y Cyngor a darparu cyfarpar iddynt fedru gweithio gartref.

Dros y misoedd a ddilynodd, llwyddasom i ddarparu nifer cynyddol o wasanaethau’r cyngor o bell neu'n ddigidol, ac roeddem yn gallu astudio sut y gallem ddysgu o'r profiad hwn i wneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd yr ydym yn gweithredu yn y dyfodol.

Yn dilyn yr adolygiad parhaus hwn, rydym bellach yn datblygu model gweithio cyfunol newydd a allai weld staff yn rhannu eu hamser rhwng y cartref a'r swyddfa.

Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau newydd o alluogi o leiaf 30 y cant o'r gweithlu i weithredu o gartref erbyn 2024, er bod y canllawiau cyfredol yn dweud y gellwch barhau i weithio o gartref lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r model newydd yr ydym yn gweithio arno ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r uchelgais hon, a'i fwriad yw cynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd.

Fe'i cynlluniwyd hefyd i gynyddu effeithlonrwydd gwasanaethau i gwsmeriaid wrth barhau i dargedu'r rhai sydd fwyaf o angen.

Mae nifer o fuddion posibl yn gysylltiedig â hyn, gan gynnwys gostyngiadau mewn traffig, lefelau llygredd ac absenoldeb salwch, arbedion ariannol, mwy o deimlad o les ymhlith ein staff, cadw a recriwtio staff yn well o fewn meysydd gwasanaeth allweddol, a chyd-fynd yn well â strategaeth ddigideiddio barhaus y Cyngor.

Gyda mwy na 6,000 o staff yn darparu hyd at 800 o wahanol wasanaethau'r Cyngor, bydd y model newydd yn effeithio'n bennaf ar y gweithwyr sy’n seiliedig yn y swyddfa yn hytrach nag ar y rhai sy'n gweithio ar draws meysydd fel ysgolion neu o fewn depos.

Rhaid dweud ein bod yn parhau i fod yn hynod falch o'r ffordd y mae staff wedi cyd-dynnu i gwrdd â heriau parhaus Covid-19.

Roedd hyn yn gyfle unwaith mewn oes i wneud newidiadau a gwelliannau sylfaenol i ddiwylliant gwaith y Cyngor, ac mae'n dilyn yn fuan ar ôl yr arolwg staff diweddaraf.

Hyd yn hyn mae canlyniadau'r arolwg wedi bod yn galonogol iawn. Er mwyn rhoi syniad i chi o rai o'r prif ffigurau, ymatebodd mwy na mil o staff i'r arolwg.

Nododd 86 y cant eu bod yn mwynhau eu rôl, ac roedd 67 y cant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwaith.

Dywedodd 73 y cant wrthym eu bod yn fodlon ar y Cyngor fel cyflogwr, ac roedd 66 y cant wedi trafod eu hanghenion dysgu a datblygu gyda'u rheolwr llinell o fewn y 12 mis diwethaf.

At ei gilydd, roedd staff yn gadarnhaol ynglŷn â rheoli llinell, gyda 74 y cant yn cyflwyno ymatebion cadarnhaol ynghylch cefnogaeth gan eu rheolwr llinell ac 82 y cant yn nodi cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu dwyffordd i drafod a chodi syniadau a materion.

Nododd 85 y cant o'r staff eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth gyflawni eu rôl yn ystod Covid-19, ac roedd 83 y cant yn teimlo'n dawel eu meddwl bod y Cyngor yn cymryd y mesurau iechyd a diogelwch priodol i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â’r gweithle.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, sef 72 y cant, yn teimlo bod cyfathrebu corfforaethol yn ystod pandemig Covid-19 wedi bod yn effeithiol.

Mewn perthynas â lles staff, dywedodd 59 y cant wrthym eu bod yn gallu cwrdd â gofynion eu swydd o fewn eu horiau gwaith, a dywedodd 69 y cant eu bod yn gyffyrddus â'r gofynion gwaith a osodir arnynt yn eu rôl.

O ddiddordeb arbennig mewn perthynas â'n cynlluniau ar gyfer datblygu model newydd o weithio oedd y ffaith bod 84 y cant naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y gallant weithio'n gynhyrchiol mewn amgylchedd pell.

Yn gyffredinol, wrth gymharu'r saith cwestiwn a ddefnyddiwyd i fesur tueddiadau rhwng y tri arolwg, roedd staff yn fwy cadarnhaol yn 2021 nag mewn arolygon blaenorol a gynhaliwyd yn 2020 a 2018.

Byddwn yn astudio'r canlyniadau hyn yn ofalus iawn a byddwn yn eu hystyried wrth ddatblygu'r model gweithio newydd.

Mae ymgysylltu â staff ac undebau llafur ar y cynigion ar y gweill, a bydd adroddiadau pellach i ddod, fydd yn rhoi manylion cadarnach ynghylch beth fydd siâp y model newydd.

Byddaf, wrth gwrs, yn dal i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau wrth i hyn fynd rhagddo.

571. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Bydd yr aelodau wedi gweld y cyfraddau coronafeirws diweddaraf, a pha mor hynod ddifrifol yw’r sefyllfa bellach ar raddfa genedlaethol ar draws ein system iechyd a gofal cymdeithasol i gyd.

Mae'r Cyngor yn profi pwysau digynsail ar draws yr holl wasanaethau, ond yn enwedig mewn meysydd fel gofal cymdeithasol oedolion a phlant, cymorth cynnar, diogelu plant a lleoliadau.

Mae’r heriau sy'n ein hwynebu wrth recriwtio a chadw ein gweithlu gofal cymdeithasol yn effeithio'n arbennig ar y materion hyn.

Mae ein gallu i ymateb i'r angen i ddarparu gofal a chefnogaeth gartref yn profi i fod yn arbennig o heriol, ac fel yr adroddodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar wrth gyfarfod diwethaf y Cyngor, rydym ar hyn o bryd yn darparu cyfanswm o 640 awr yr wythnos yn fwy nag yr oeddem o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Yn wyneb yr angen cynyddol i ymestyn y pecynnau gofal presennol a darparu gofal i fwy o unigolion, y mater allweddol o hyd yw y bydd yn bosibl y bydd yn rhaid i breswylwyr ddisgwyl i'r rhain ddod ar gael.

Mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn hynod o wan o ganlyniad i oedi cyn i bobl gael mynediad at driniaethau'r GIG a'u derbyn, cyflyrau cronig yn gwaethygu oherwydd Covid hir neu fwy o broblemau ynysu cymdeithasol o ganlyniad i aros gartref, ac effaith hyn i gyd ar deulu, ffrindiau a gofalwyr.

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi blino ar ôl ymdrechion arwrol y 18 mis diwethaf, ac mae'r risg o losgi allan ac athreuliad o'r sector yn real iawn.

Ni allaf bwysleisio digon yr angen i gydnabod bod y sefyllfa bellach ar y pwynt mwyaf heriol a welsom drwy gydol y pandemig.

Yn ddiweddar, nododd gweinidogion Llywodraeth Cymru y bydd y system gyfan yn parhau i fod dan bwysau tra bydd y pandemig yn mynd yn ei flaen a disgwylir inni gynnal y dull o ‘fusnes fel arfer’.

Aeth y gweinidog iechyd cyn belled â nodi, er y gall y sefyllfa lefelu ar ôl mis Hydref, y byddwn yn dal i wynebu ein pwysau gaeaf arferol fel y ffliw a firysau anadlol eraill a allai effeithio ar y system.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i gyflwyno ymateb cryf i'r heriau hyn.

Mae gennym gyfarfodydd lefel Aur, Arian ac Efydd yn cael eu cynnal gyda chydweithwyr y bwrdd iechyd ar lefel ranbarthol, rydym yn blaenoriaethu gofal yn ddyddiol ac mae set fanwl iawn o gynlluniau gweithredu yn eu lle, ac rydym yn adolygu, blaenoriaethu a chydlynu gwasanaethau hanfodol yn rheolaidd ar lefel y cyfarwyddwr a phenaethiaid gwasanaeth.

Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor llawn, lansiwyd ymgyrch recriwtio newydd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ar draws meysydd sy'n amrywio o ofal cartref a'r timau ail-alluogi i wasanaethau pobl ifanc.

Mae hyn yn gysylltiedig â'r ymgyrch genedlaethol 'Gofalwn' sy'n cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ac sy'n hybu manteision gweithio mewn gofal, ac sydd hefyd yn annog pobl i ymgeisio am rolau o fewn y sector.

Mae'r ymgyrch recriwtio yn canolbwyntio ar y buddion niferus o weithio yn y maes hwn, ac mae'n pwysleisio sut mae hyfforddiant a chefnogaeth lawn yn helpu staff i wneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau pobl leol.

Mae recriwtio gweithwyr gofal yn cael lle amlwg yn ein cynllun gweithredu, rydym wedi ailagor ein chwe gwely ailalluogi preswyl ym Mryn Y Cae yn Bracla, ac rydym wedi recriwtio dau ddarparwr newydd ychwanegol i'n fframwaith.

Mae ein cynllun ailadeiladu ac adfer gofal cymdeithasol wedi'i ddatblygu'n dda yn unol â Fframwaith Adfer Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd mewn cysylltiad agos â'r sector gofal cymdeithasol cyfan a phartneriaid, ac yn parhau i'w cefnogi i ddarparu gofal ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed.

Mae arnom ni eisiau i breswylwyr sy'n chwilio am waith, neu a allai fod yn ystyried eu dewisiadau gyrfa, ddeall bod gofal cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd gyrfa gwerth chweil i unigolion o bob math o gefndiroedd.

Mae arnom eisiau iddyn nhw sylweddoli mai cael y gwerthoedd cywir a bod yn bositif, yn ofalgar ac yn llawn cymhelliant yw'r nodweddion pwysicaf.

Rydym hefyd yn atgoffa preswylwyr, sydd angen gwybodaeth neu gyngor ynghylch eu cynnal eu hunain, am ddefnyddio'r llu o wasanaethau sydd ar gael yn eu cymunedau, naill ai drwy'r Cyngor neu drwy ein partneriaid yn y trydydd sector.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio Pwynt Mynediad Cyffredin y Cyngor ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnwys gwybodaeth a chyngor, amddiffyn oedolion agored i niwed rhag niwed neu esgeulustod, a chefnogaeth i bobl sy'n gofalu am eraill.

Gall unrhyw un sy'n ceisio cefnogaeth ynghylch plant a theuluoedd gysylltu â thîm Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Cyngor, tra mae ein Cydlynwyr Cymunedol Lleol yn canolbwyntio ar y rhai na fyddai eu hanghenion fel arfer yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gofal a chymorth.

Mae'r cydlynwyr yn rhan bwysig o'n dull ataliol cyffredinol o gynnal annibyniaeth a lles, fel y mae'r nifer fawr o ofalwyr yr ydym yn parhau i'w cefnogi drwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru sy'n cynnwys llinell gymorth 24/7.

Yn anffodus, un agwedd ar y sefyllfa bresennol yw ei bod yn parhau i beri risg o ran mwy o gwynion ac ymholiadau drwy aelodau.

Mae hyn oherwydd y gall cyfran fach o'r bobl yr ydym yn eu cefnogi wynebu oedi cyn i'r anghenion yr aseswyd eu bod ganddynt gael sylw, ond rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â hyn yn sensitif ac yn broffesiynol o dan realiti'r amgylchiadau sy'n ein hwynebu.

Gall pob aelod gefnogi'r ymdrechion hyn drwy hyrwyddo'r fenter recriwtio gofal cymdeithasol yn ein cymunedau, ac annog pobl i ddod ymlaen a dod i wybod mwy.

Yn y cyfamser, mae’r staff yn parhau i ddangos ymroddiad a phenderfyniad eithriadol, ac rwy'n siŵr y bydd arnoch eisiau ymuno â mi i ddiolch iddynt unwaith eto am eu hymdrechion parhaus.

Yn ddiweddar, gorfododd y sefyllfa ddifrifol hon Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i wneud newidiadau o amgylch ymweliadau ysbyty a chasglu profion coronafeirws am ddim.

Erbyn hyn, dim ond os yw claf yn derbyn gofal diwedd oes y gall pobl ymweld ag ysbytai ar hyn o bryd, a bod yr ymweliad wedi'i gytuno ymlaen llaw gyda gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol cleifion mewnol.

Ar gyfer merched beichiog, gall un partner neu berson cynorthwyol fynd gyda nhw unwaith y bydd wedi cael ei gadarnhau eu bod yn esgor. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod ôl-enedigol cyntaf cyn iddynt gael eu trosglwyddo gartref neu i ward ôl-enedigol.

Gall un person fynd gyda chleifion mewn ardaloedd pediatreg a babanod newyddanedig fel y cytunwyd gyda thimau clinigol. Fodd bynnag, ni chaniateir ymweld â'r wardiau cynenedigol nac ôl-enedigol.

Ar gyfer apwyntiadau uwchsain, caniateir i un partner fynychu'r sgan ddyddio 12 wythnos, y sgan anghysondeb 20 wythnos a rhai sganiau a drefnir drwy'r gwasanaeth beichiogrwydd cynnar.

Rhaid i bobl sy'n mynychu apwyntiadau cleifion allanol wneud hynny ar eu pen eu hunain, ond bydd y staff yn darparu cymorth lle bo angen ac mae mynediad Wi-Fi am ddim ar gael i gynorthwyo pobl i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Mae'n amlwg bod yn rhaid i iechyd a diogelwch cleifion, ymwelwyr a staff barhau i fod yn brif flaenoriaeth, a gobeithiaf y bydd cymunedau ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig eu cefnogaeth a'u dealltwriaeth yn ystod yr amser heriol hwn.

Mae cyfraddau brechu lleol yn parhau i fod yn uchel iawn, ac yn ddiweddar fe wnaethom dorri drwy'r rhwystr 100,000 am nifer y preswylwyr sydd wedi derbyn dwy ddos y brechlyn.

Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn hanfodol bwysig i bawb ddal i fod ar eu gwyliadwriaeth yn erbyn y coronafeirws, a gwneud popeth o fewn ein gallu i'w atal rhag lledaenu ymhellach.

Fel rhan o'r strategaeth gadael neb ar ôl, gall unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn, nad yw wedi derbyn ei apwyntiad brechu cyntaf eto, gerdded i mewn i ganolfan a derbyn un, tra gall pobl dros 18 oed sydd eisoes wedi derbyn eu dos gyntaf wneud yr un peth ar gyfer eu hail frechiad.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru a’r bwrdd iechyd yn ystyried cyngor meddygol newydd ynghylch a ellir darparu’r brechlyn i bobl ifanc rhwng 12 a 15 oed. Maent hefyd yn ystyried rhaglen atgyfnerthu arfaethedig, ac rydym yn disgwyl gwybod mwy o fanylion am y trefniadau sut y cyflwynir y ddau hyn yn fuan iawn.

Mae yna ddau grŵp o blant o fewn carfan y rhai 12 i 15 oed, sef y rhai sy'n hynod fregus a'r rhai nad ydynt. Mae Cwm Taf Morgannwg wedi dechrau brechu’r rhai bregus, gyda’r rheiny sy’n dod o fewn y diffiniad a ehangwyd gan y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (JCVI) ar 3 Medi yn cael eu gwahodd i Ganolfannau Brechu Cymunedol, gan gynnwys Ravens Court, yr wythnos nesaf. Bydd y plant hyn yn derbyn dwy ddos o'r brechlyn Pfizer.

Ar 1 Medi, cyhoeddodd y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (JCVI) y dylai'r unigolion bregus iawn hynny sydd â gwrthimiwnedd difrifol dderbyn trydedd dos o'r brechlyn fel rhan o'u cwrs cyntaf. Argymhellir bod y trydydd dos hwn yn Pfizer. Mae'r bobl yn y categori hwn yn cael eu hadnabod naill ai gan eu clinigwr neu drwy ffurflen hunangyfeirio. Mae'r broses hon ar y gweill a bydd brechu yn cychwyn mewn Canolfannau brechu cymunedol yr wythnos nesaf.

Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn gyda Cwm Taf Morgannwg ar y rhaglen frechu ac, fel bob amser, byddaf yn rhannu manylion pellach trwy e-bost cyn gynted ag y byddant yn derfynol.

Mewn newyddion arall, fel rhan o'n hymrwymiad i Bolisi Adleoli a Chynorthwyo pobl o Afghanistan yn y DU, rydym wedi cytuno i ddarparu cartrefi a chefnogaeth ddiogel i hyd at dri theulu, ac rydym yn aros am gadarnhad pellach ar sut y bydd hyn yn gweithio.

Mae wedi bod yn galonogol gweld yr ymateb hynod gadarnhaol y mae hyn wedi'i gael gan breswylwyr, a'r ffordd y mae llawer wedi gofyn sut y gallent gynnig help a chefnogaeth.

Rydym wedi partneru â Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr i ystyried hyn, a byddem yn gofyn i unrhyw un a allai fod yn awyddus i helpu i ymweld â gwefan BAVO i gael mwy o wybodaeth am yr hyn a allai fod yn ofynnol.

Ar hyn o bryd, nid oes cais i bobl roi eitemau, ond efallai y bydd angen cefnogaeth gyda materion fel cyfeillio, cwmnïaeth, Saesneg llafar, dangos pobl o amgylch yr ardal, cludiant, help gyda rhedeg negeseuon ac yn y blaen.

Yn nes ymlaen, mae'n debygol y bydd angen am wasanaethau mwy arbenigol sy'n ymwneud â meysydd fel materion cyfreithiol, tiwtora a mentora, iechyd meddwl a chorfforol, lles a mwy.

Bydd mwy o wybodaeth am y cynllun a sut y bydd yn gweithio yn hysbys yn fuan, felly cadwch lygad yn agored am fanylion pellach.

Yn olaf, efallai y bydd aelodau eisiau atgoffa eu hetholwyr y bydd dwsinau o gyflogwyr a sefydliadau yn arddangos yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr yfory fel rhan o'n Ffair Swyddi awyr agored gyntaf.

Mae'r digwyddiad rhad ac am ddim, fydd wedi'i leoli mewn amryw o leoliadau gan gynnwys Dunraven Place a Stryd Caroline, yn cael ei gynnal rhwng 10 a.m. a 2 p.m.

Mae wedi'i drefnu mewn partneriaeth â Chyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr a Chanolfan Swyddi a Mwy a bydd yn cynnwys cyngor arbenigol am ddim a chymorth ar ystod o gyfleoedd gwaith, hyfforddiant a gwirfoddoli.

Mae rhai o'r cyflogwyr fydd yn cymryd rhan yn cynnwys Heddlu De Cymru, Avon Cosmetics, Bysiau First Cymru, G4S, Gyrfa Cymru a Gwasanaethau Glanhau A&R yn ogystal â MPS Industrial, Rheoli Cyfleusterau Rubicon Cymru, Harlequin Home Care Ltd a Wilmott Dixon.

Gydag ystod o swyddi gwag dros dro a pharhaol ar gael, mae'r ffair swyddi yn gyfle gwych i bobl ddod o hyd i waith, newid gyrfa neu gael mynediad at hyfforddiant newydd, ac rwy'n siŵr y bydd yn llwyddiant mawr.

572. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) adroddiad ar ran y Pwyllgor, a'i bwrpas oedd cyflwyno adolygiad i'r Cyngor o'r gwaith a wnaed gan y gwasanaeth Trosolwg a Chraffu dros gyfnod o ddwy flynedd 2019/20 a 2020/21.

Dywedodd ei bod yn ofynnol i’r gwasanaeth Craffu gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor gydag adolygiad o sut mae'r swyddogaeth wedi gweithredu dros y cyfnod blaenorol. Roedd yr adolygiad yn offeryn defnyddiol ar gyfer adolygu effeithiolrwydd Craffu, gan roi cyfle i fyfyrio'n iawn ar sut mae’r gwasanaeth Craffu wedi gweithredu, gan gynnwys yr heriau a'r canlyniadau amrywiol. Roedd yr adroddiad yn rhoi sylwebaeth ar weithgaredd craffu am y cyfnod.

Ychwanegodd Cadeirydd COSC ymhellach, fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol wedi ystyried a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Craffu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2021, a oedd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad, i'w gyflwyno i'r Cyngor.

Esboniodd, oherwydd pandemig Covid-19, fod yr adroddiad yn ymdrin â chyfnod o ddwy flynedd ac yn rhoi manylion am yr heriau a'r canlyniadau i Bwyllgorau a Phaneli Craffu am y cyfnod, ynghyd â nodi rhai meysydd ffocws i'w gwella er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth Craffu yn parhau i ddatblygu a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr wrth symud ymlaen.

Diolchodd yr Arweinydd i Gadeiryddion y pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, h.y. cadeiryddion y gorffennol a'r presennol, am eu cyfraniadau i'r gwaith Craffu a'r Adroddiad Blynyddol oedd gerbron yr Aelodau.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Craffu oedd yn gysylltiedig yn Atodiad A i’r adroddiad.

573. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/21 i’r Cyngor, gan ofyn i’r Aelodau nodi’r asesiadau a gyrhaeddwyd yn lleol ynghylch gwasanaethau gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Esboniodd mai hwn oedd unfed Adroddiad Blynyddol ar ddeg Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i fod yn seiliedig ar hunanasesiad yr Awdurdod o’r ffordd y cafodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol eu cyflawni a’u darparu dros gyfnod o ddwy flynedd 2019/20 a 2020/21. Roedd yr adroddiad ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Amlinellai’r adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndir ac, yn dilyn hynny, nodai fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn gosod pwyslais cryf ar hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a’r gofalwyr sydd angen cymorth. Roedd yn bwysig bod barn a lleisiau pobl a'u gofalwyr yn cael eu clywed, meddai’r adroddiad.

Mae'r canllawiau ar gyfer yr adroddiad yn trefnu’r adrannau yn ôl y chwe safon ansawdd genedlaethol ar gyfer llesiant. Y rhain oedd:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae ar bobl eisiau eu cyflawni;

- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl;
- Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed;
- Annog a chynorthwyo pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas;
- Cynorthwyo pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel;
- Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i ennill mwy o les economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n addas i’w hanghenion.

Rhydd yr adroddiad grynodeb o'r prif gyflawniadau yn 2019/20 a 2020/21 gan gymryd i ystyriaeth yr heriau a wynebwyd yn ystod pandemig Covid-19, ac mae'n cyfeirio at feysydd lle mae cynnydd wedi'i ohirio, neu lle bu angen newid blaenoriaethau o ganlyniad i'r pandemig byd-eang digynsail. Tynnai’r adroddiad sylw hefyd at y blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn 2021/22. Mae’r dadansoddiad yn tynnu ar gynnydd yn erbyn y cynlluniau busnes, data perfformiad ar gyfer pob maes gwasanaeth ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant, ynghyd ag adborth gan bobl, gofalwyr a staff.

Dangosai’r adroddiad hefyd, er gwaethaf heriau'r pandemig, fod y Cyngor, ynghyd â'i sefydliadau partner allweddol, wedi parhau i symud ymlaen gyda datblygiadau a gwelliannau gwasanaeth allweddol, ac wedi parhau i fod yn effeithiol wrth gefnogi'r rhai oedd angen gofal a chefnogaeth. Fodd bynnag, nodai ymhellach feysydd lle roedd angen gwella, a'r risgiau a'r heriau mwyaf sylweddol oedd yn wynebu’r Cyngor a'i randdeiliaid wrth symud ymlaen, a manylwyd ar y rhain yn y blaenoriaethau ar gyfer 2021/22.

Amlygodd yr adroddiad ymhellach, ym mis Tachwedd 2021, fod arolygiad rheoliadol llawn wedi ei gynnal o Wasanaethau Gofal Cartref y Cyngor, yr oedd ei ganlyniad yn gadarnhaol dros ben, fel y cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Ym mis Ebrill 2021 roedd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cynnal gwiriad sicrwydd i weld pa mor dda yr oedd y Cyngor a phartneriaid, wedi sicrhau diogelwch a lles y bobl sy'n defnyddio neu y gallai fod angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio, a diogelwch a lles y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Yn gyffredinol, roedd AGC wedi canfod bod yr awdurdod lleol wedi nodi'n glir ei fwriad strategol a gweithredol i gefnogi pobl ifanc, oedolion a gofalwyr bregus drwy gydol pandemig Covid-19.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles - fod yna rai blaenoriaethau gwasanaeth cyfan ac yna flaenoriaethau mwy penodol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol Plant, wrth symud ymlaen. Byddai'r Gyfarwyddiaeth yn gweithredu'r camau fel y'u nodwyd yng Nghynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2021-22. Manylwyd ar yr 8 blaenoriaeth uchaf ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a lles yn 2021/22 ym mharagraff 4.11 o'r adroddiad a rhoddodd grynodeb o'r rhain er budd yr Aelodau.

Hefyd rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles - gyflwyniad pwynt pŵer gyda chymorth cydweithwyr agos, oedd yn ymdrin â phrif feysydd allweddol Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ategwyd hyn ymhellach â nifer o glipiau fideo byr gan weithwyr allweddol mewn lleoliadau Gofal Cymdeithasol, gan gydnabod y boddhad mewn swydd oedd yn dod yn sgil cynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed.

Roedd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) ar 1 Medi 2021, a chadarnhaodd fod sylwadau ac awgrymiadau COSC a roddwyd gan Aelodau'r Pwyllgor, wedi cael eu hystyried yn y fersiwn ddiweddaraf o'r adroddiad.

Talodd y Maer deyrnged i bawb a oedd wedi cefnogi'r gwasanaeth gofal, yn enwedig dros y 18 mis diwethaf yn ystod Covid-19, yn enwedig y rhai oedd yn ofalwyr gwirfoddol a/neu ddi-dâl. Teimlai ef fod pob gofalwr wedi rhoi cefnogaeth amhrisiadwy yn ystod yr hyn a fu'n amser digynsail, na phrofwyd ei debyg erioed o'r blaen.

Cymeradwyodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ychwanegu ei fod yn un o'r adroddiadau statudol pwysicaf yr oedd y Cyngor yn eu hystyried yn flynyddol. Diolchodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol am eu mewnbwn yn yr ystyriaeth flaenorol o'r Adroddiad Blynyddol, am lefel uchel y craffu a'r ffocws yr oeddent wedi'i roi iddo. Dymunai atgoffa'r cyhoedd a'r Aelodau fel ei gilydd, yn ychwanegol at yr Adroddiad Blynyddol, fod rheoleiddwyr wedi craffu'n ddwys ar Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, ac wedi gwneud hynny fwy fyth os rhywbeth yn ystod y pandemig. Cydnabu'r ffaith fod AGC wedi cwblhau arolygiad llawn o Wasanaethau Gofal Cartref yr Awdurdod oedd wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran ei ganlyniadau, er gwaethaf heriau parhaus y pandemig ar ben y gwaith arferol o ddydd i ddydd. Roedd hyn wedi bod yn destun gwiriad sicrwydd dilynol pellach ym mis Ebrill 2021, oedd yn ddadansoddi'r ffyrdd a'r dulliau y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn eu mabwysiadu, i gadw pobl yn ddiogel. Roedd hwn hefyd wedi bod yn adolygiad dilynol cadarnhaol iawn. Diolchodd yr Arweinydd i holl staff y rheng flaen yn y gweithlu gofal am eu hymdrechion di-ildio, oedd wedi rhoi eu hymrwymiad diflino i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan beryglu eu hiechyd eu hunain wrth wneud hynny, oedd, yn ei farn ef, yn ardderchog. Byddai'r Cyngor yn awr, wrth symud ymlaen, yn targedu'r wyth blaenoriaeth y manylwyd arnynt yn yr Adroddiad Blynyddol, ychwanegodd. Ategwyd y teimladau hyn gan y Dirprwy Arweinydd.

Gofynnodd Aelod beth oedd yn cael ei wneud ynglŷn â recriwtio a chadw Gweithwyr Gofal.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles - fod gan y Cyngor Gynllun Gweithredu Recriwtio a Chadw manwl a chynhwysfawr iawn, yr oedd y Swyddogion yn cyfarfod yn wythnosol i'w wella a'i berffeithio ymhellach. Anogodd yr Aelodau hefyd, i roi hysbysrwydd i'r angen am Weithwyr Gofal drwy bethau fel eu cylchlythyrau ac ar y Cyfryngau Cymdeithasol. Yn yr un modd, roedd y Cyngor yn parhau i weithio gydag Adnoddau Dynol, Cyflogadwyedd Cymru a'r Adran Gyfathrebu i hybu'r swyddogaeth bwysig hon. Roeddent hefyd yn edrych ar hyblygrwydd mewn Contractau ar gyfer Gweithwyr Gofal, meddai, er mwyn annog pobl i ddod ymlaen ar gyfer y math hwn o waith.

Cyfeiriodd Aelod at y Gwasanaeth Cadw Babanod mewn Cof oedd yn canolbwyntio ar rieni newydd, yn enwedig yn ystod amser y pandemig. Roedd y cyfnod hwn wedi bod yn anodd iawn i rieni plant newydd eu geni. Gofynnodd sut roedd hyn yn dod yn ei flaen ac a oedd cefnogaeth yn dal i fod ar gyfer hyn, gyda rhieni â phroblemau eraill heblaw rhai o natur ariannol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles - fod Prosiect Cadw Babanod mewn Cof yn rhagorol ac yn eithaf unigryw, yn yr ystyr ei fod yn rhywbeth nad oedd awdurdodau cyfagos eraill wedi ei ddilyn, a'i fod yn amhrisiadwy o ran cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai newyddanedig yn ystod amser y pandemig. Roedd hwn yn wasanaeth a oedd y tu allan i faes y Gwasanaethau Cymdeithasol i raddau helaeth a mwy ym maes Cymorth Cynnar y Cyngor. Roedd y Gwasanaethau Cymorth Cynnar hefyd yn cynnwys Dechrau'n Deg yn ogystal â chefnogaeth barhaus drwy amryw ganolfannau oedd wedi eu lleoli ar draws y

Fwrdeistref Sirol. Roedd ymweliadau iechyd wedi dal i gael eu cynnal hefyd yn ystod y pandemig, ychwanegodd. Gorffennodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles drwy gadarnhau y byddai’r Cyngor yn parhau i adolygu ymyriadau cyn genedigaeth hefyd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/21

574. CYNRYCHIOLAETH YN LLYS YR YNADON

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, er mwyn gofyn am gymeradwyaeth i ddiwygio’r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau, i awdurdodi Swyddogion Refeniw i fynd i’r Llys Ynadon ar ran y Cyngor mewn perthynas ag adennill Treth Gyngor oedd heb ei thalu a Threthi Annomestig Cenedlaethol.

Esboniodd mai dim ond un aelod o’r Adran Adennill yn y Tîm Refeniw oedd wedi ei awdurdodi i fynychu’r Llys Ynadon. Felly roedd angen cymeradwyaeth i Swyddogion Refeniw eraill fynychu Gwrandawiadau Tribiwnlys Prisio a Gwrandawiadau Llys yr Ynadon ar ran y Cyngor, ar gyfer adennill y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol ac i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei redeg yn effeithiol o ddydd i ddydd.

Er mwyn darparu ar gyfer hyn, roedd angen diwygio Cynllun B2 y Cynllun Dirprwyo fel yr awgrymid ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r grym dirprwyedig arfaethedig wedyn yn osgoi'r angen i fynd ag adroddiad i'r Cyngor ar gyfer pob newid ymhlith swyddogion unigol. Bydd unrhyw awdurdodiadau a wneir o dan y ddirprwyaeth yn sicrhau bod gan y swyddog y cymwysterau, yr hyfforddiant a’r profiad priodol a bod y swyddogaeth sydd i gael ei harfer o fewn maes cyfrifoldeb y swyddog hwnnw. Caiff yr awdurdodiad ei gofnodi'n ysgrifenedig a bydd yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro o fewn 5 diwrnod gwaith.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo’r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau fel y’u heglurwyd ym mharagraff 4.2 yr adroddiad.

575. AILBENODIADAU I’R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, gyda'r bwriad o ofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i ymestyn tymor swydd dau Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Amlinellai paragraff 3.1 gyfansoddiad presennol y Pwyllgor a'r meini prawf o ran ei aelodaeth, tra roedd adran nesaf yr adroddiad yn cadarnhau bod tymor swydd dau Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor yn dod i ben ym mis Hydref 2021. Esboniodd, fodd bynnag, fod yr Aelodau dan sylw yn gymwys i gael eu hailbenodi am dymor pellach. Wedi hynny, roedd yn ofynnol iddynt sefyll i lawr gan na allent wasanaethu mwy na dau dymor yn y swydd o dan y Rheoliadau. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau'n nodi y gall yr ail dymor yn y swydd fod yn bedair blynedd ar y mwyaf.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod yr Aelodau dan sylw wedi gwneud cyfraniad buddiol i lywodraethu'r Cyngor a'u bod yn cytuno i sefyll am dymor pellach.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn ailbenodi Mrs Judith Kiely a Mr Clifford Jones OBE i’r Pwyllgor Safonau am dymor pellach o bedair blynedd.

576. DIWYGIAD I'R CYFANSODDIAD A'R CYNLLUN DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio - adroddiad, a'i bwrpas oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i:

- nifer o fân welliannau i'r Cyfansoddiad mewn perthynas â selio dogfennau cyfreithiol y Cyngor er mwyn ei gwneud yn bosibl rheoli'r broses gyfreithiol yn fwy effeithlon;
- diwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori Rheolau diwygiedig y Weithdrefn Contractau; a
- diwygio Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor yn unol ag adran 4.7 o'r Adroddiad hwn.

Esboniodd, fel cefndir, ei bod yn ofynnol cyflawni rhai cytundebau, sef trosglwyddiadau tir a chontractau oedd dros werth ariannol y cytunwyd arno, fel gweithredoedd. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl cychwyn camau gorfodi ar ôl y cyfnod cyfyngedig arferol o amser o 6 blynedd. Mewn achosion o'r fath cwblheir y cytundebau trwy lofnod y Swyddog Awdurdodi a thrwy osod Sêl Gyffredin y Cyngor.

Hefyd, mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'n rheolaidd Reolau'r Weithdrefn Contractau, sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.

Aeth y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio - ymlaen drwy nodi bod Erthygl 14.05 o'r Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol bod "gosod y Sêl Gyffredin yn cael ei ardystio naill ai gan y Maer, y Dirprwy Faer, yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd a chan Gyfreithiwr y Cyngor neu berson a awdurdodwyd ganddo ef/hi".

Mae cynnwys yr Aelodau hyn yn ofyniad hanesyddol ac nid yw'n eglur pa bwrpas y mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn ei gyflawni, o ystyried natur gymhleth y dogfennau hyn a'r prosesau llywodraethu a ddilynir cyn i ddogfennau o'r fath gael eu selio. Gellir dadlau bod y logisteg o amgylch y broses gyfredol yn achosi oedi a chost ddiangen ac felly awgrymir dileu'r gofyniad i'r Maer neu'r Dirprwy Faer, yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd ardystio selio dogfennau. Hyn, bellach, yw arfer cyffredin nifer o awdurdodau lleol.

Felly, argymhellwyd y dylid diwygio'r Erthygl hon o'r Cyfansoddiad yn unol â pharagraff 4.2 o'r adroddiad, ar hyd y llinellau a argymhellir uchod.

At hynny, mae Rheol 20.2 o Reolau'r Weithdrefn Contractau (CPRs) yn darparu: "Bydd pob Contract, gan gynnwys fframweithiau sy'n fwy na £500,000, yn cael eu gweithredu o dan Sêl". Nid gwerth ariannol contract yw'r unig ffactor wrth benderfynu a oes angen gweithredu cytundeb o dan Sêl. Mae angen ystyried gofynion statudol a chyfraith gwlad yn ogystal ag ystyriaethau ymarferol megis cymhlethdod y trefniant. Cynigiwyd, felly, y dylid diwygio Rheolau'r Weithdrefn Contractau yn y Cyfansoddiad i ddarllen, 'Cyfeirir pob Contract, gan gynnwys fframweithiau sy'n fwy na £500,000 mewn swm neu werth at Gyfreithiwr y Cyngor i'w gymeradwyo.'

Argymhellai paragraff 4.4 o'r adroddiad ymhellach y dylid mewnosod y canlynol yn Erthygl 15.03 i ganiatáu i'r Swyddog Monitro wneud cywiriadau argraffyddol a chywiriadau eraill i'r Cyfansoddiad: -

"Bydd gan y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaeth Taledig, yr awdurdod i wneud cywiriadau argraffyddol a chywiriadau eraill a diwygiadau er eglurder i'r Cyfansoddiad (ar yr amod nad ydynt yn gwneud newid sylweddol i ystyr y

Cyfansoddiad) ac i wneud diwygiadau diweddaru i'r Cyfansoddiad lle bo angen oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth."

Yn dilyn adolygiad o Reolau'r Weithdrefn Contractau, gwnaed nifer o newidiadau i Reolau presennol y Weithdrefn Contractau i sicrhau bod y Cyngor yn moderneiddio'r ffordd y mae'n caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Roedd copi o Reolau diwygiedig y Weithdrefn Contractau ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 14 Medi 2021 i gymeradwyo Rheolau diwygiedig y Weithdrefn Contractau i ddod i rym ar y 1af o Hydref 2021.

Yn awr, roedd angen ymgorffori Rheolau diwygiedig y Weithdrefn Contractau yn y Cyfansoddiad.

Ym mharagraff 4.7 o'r adroddiad, amlinellwyd diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyaethau gyda golwg ar swyddogaethau'r Cyngor. Roedd y rhain yn ymwneud â Phwerau Cyffredinol Prif Swyddogion ac â Chynllun B2 ac roeddent wedi eu rhestru yn yr adroddiad, gan gynnwys drwy newidiadau wedi eu holrhain (oedd yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig).

Dywedodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio fod adroddiad tebyg wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ddoe ar gyfer diwygiadau i'w swyddogaethau Gweithredol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

(1) yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cyfansoddiad fel y'u nodwyd yn yr adroddiad hwn;
(2) yn nodi Rheolau diwygiedig y Weithdrefn Contractau i ddod i rym ar y 1af o Hydref 2021; ac
(3) yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor fel y nodwyd yn adran 4.7 o'r Adroddiad.

577. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Gwnaeth Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio a'r Swyddog Monitro sylwadau ar yr Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrwyd yn yr adroddiad.

578. NEWIDIADAU A GYNIGIWYD I STRWYTHUR UWCH-REOLI Y CYDGYNGOR TRAFOD TELERAU (CTT)

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i welliant a gynigiwyd i'r strwythur uwch-reoli, ac i gychwyn ar ymgynghoriad ffurfiol gyda swyddogion perthnasol y CTT gyda golwg ar strwythur uwch-reoli arfaethedig y CTT.

Atgoffodd yr Aelodau, fel gwybodaeth gefndir, fod y Cyngor wedi cymeradwyo strwythur Tâl a Graddio CTT newydd ym mis Tachwedd 2017.

Yn dilyn hynny, gwnaed newidiadau a diwygiadau pellach i hyn gan aelodau, a'r olaf ohonynt ym mis Hydref 2019, fel y cyfeirir ato ym Mharagraff 3 yr adroddiad.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod recriwtio pellach wedi digwydd ers hynny mewn perthynas â swyddi CTT, sef y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ac, yn fwy diweddar, penodi Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid.

Dywedodd y byddai’r Aelodau’n cofio, yn yr adroddiad blaenorol, i’r Cyngor ym mis Hydref 2019, yn dilyn adolygiad o Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, bod y Gwasanaeth wedi cael ei symud fel ei fod yn adrodd i’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio ar y pryd, a bod y swydd honno, o ganlyniad, wedi cael ei hailddynodi’n Brif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio. Fodd bynnag, ni fu unrhyw newid yng ngraddiad y swydd hon, er bod sgôr y swydd wedi cynyddu.

Yn ogystal â dyletswyddau a chyfrifoldeb y swydd hon, yn ystod pandemig Covid-19 mae deiliad y swydd hefyd wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol pwysig a sylweddol o ran cynrychioli'r Cyngor ar y Grŵp Goruchwylio Strategol Rhanbarthol (GGSRh) amlasiantaethol. Mae hon yn rôl strategol a chorfforaethol lefel uchel, sy'n gofyn am awdurdod ac atebolrwydd digonol i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor yn gyflym, a defnyddio adnoddau yn unol â hynny. Yn achos pandemig Covid-19 a'r cyfnod adfer ac ymateb dilynol, mae deiliad y swydd hefyd yn cynrychioli'r Cyngor ar Dîm Rheoli Digwyddiadau Cwm Taf Morgannwg (IMT), yr oedd ei rôl yn cynnwys sefydlu a gweithredu'r rhaglen brofi ac olrhain a diogelu, cyswllt agos â'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu a sefydlu canolfannau profi yn lleol a'r rhaglen frechu ac ymatebion eraill i gyngor, arweiniad a deddfwriaeth y llywodraeth wrth iddynt ddod i'r amlwg. Daeth yn amlwg nad yw'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn wedi'u cyfyngu i bandemig Covid ac wrth inni gyrraedd cyfnod endemig maes o law, bydd gofyn parhaus am rywun ar lefel Prif Swyddog i gyflawni'r swyddogaeth gorfforaethol a strategol hon a chynrychioli'r Cyngor lle mae bygythiad neu berygl buan i ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r rôl yn gofyn am arweinyddiaeth gref a gwaith corfforaethol agos drwy'r sefydliad ac alinio â gwaith y tîm cynllunio brys.

Dywedodd y Prif Weithredwr, am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad, gan gynnwys y gofynion y mae Covid wedi'u gosod ar awdurdodau lleol nid yn unig ddoe a heddiw, ond yn y dyfodol hefyd, yr ystyrid y dylid gosod Uned Bolisi a Materion Cyhoeddus newydd ym mhortffolio Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio. Byddai hyn yn gwneud newid yn angenrheidiol ac felly yr argymhellir bod swydd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio - yn cael ei hailddynodi fel Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol. Mae'r dyletswyddau a rhychwant y cyfrifoldebau y bydd deiliad y swydd bellach yn eu cyflawni (fel y nodir ym mharagraffau 4.3 i 4.4 yr adroddiad) wedi'u hailwerthuso mewn disgrifiad swydd diwygiedig sy'n ymgorffori'r ystod ehangach o gyfrifoldebau gan ddefnyddio cynllun Gwerthuso Swyddi cymeradwy'r Cyngor, ac awgrymir newid o ganlyniad yn y radd i'r swydd arfaethedig fel a ganlyn: Mae gan rôl bresennol Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio ystod cyflog o £81,287 i £86,815. Mae gan rôl arfaethedig Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol ystod cyflog o £93,626 i £100,149. Byddai'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd newydd yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol.

O ystyried y newid i'r portffolio a’r cyfrifoldebau ychwanegol, byddai angen ymgynghoriad statudol â deiliad cyfredol y swydd. Câi hwn ei arwain gan y Prif Weithredwr ac Adnoddau Dynol a gallai arwain at fân newidiadau yn y Disgrifiad Swydd.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr sylw’r Cyngor at y strwythur CTT cyfredol yng Nghyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr fel y nodir yn Atodiad A, gyda'r strwythur arfaethedig wedi'i nodi yn Atodiad B i’r adroddiad eglurhaol.

Gofynnodd Aelod pryd y byddai'r newidiadau fel yr argymhellir yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu, pe baent yn cael eu cymeradwyo.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai hyn o'r dyddiad y rhoddid cymeradwyaeth i greu'r swydd ddiwygiedig newydd a bod y broses ymgynghori'n cychwyn er mwyn sefydlu'r Uned Bolisi a Materion Cyhoeddus arfaethedig newydd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

i. Yn cymeradwyo'r cynnig i ailddynodi swydd Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio yn Brif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol;
ii. Yn awdurdodi'r Prif Weithredwr i gychwyn ymgynghoriad ffurfiol gyda swyddogion CTT perthnasol yng Nghyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr ac i gymeradwyo mân welliannau i'r Disgrifiad Swydd;
iii. Yn awdurdodi’r Prif Weithredwr ymhellach i benderfynu ar y strwythur newydd a gweithredu'r newidiadau sy'n deillio o hyn yn dilyn yr ymgynghoriad;
iv. Yn awdurdodi mân welliannau i Gyfansoddiad y Cyngor a'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â chyfeiriadau at y portffolio a theitl y swydd.

579. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

Y Cynghorydd Altaf Hussain i’r Arweinydd

Cytunwyd y dylid gohirio'r cwestiwn hwn, fel y manylid arno yn Eitem 14 ar yr Agenda, hyd gyfarfod nesaf y Cyngor oherwydd nad oedd y Cynghorydd Hussain yn bresennol yn y cyfarfod.

Y Cynghorydd Tim Thomas i’r Dirprwy Arweinydd
A all Aelod y Cabinet dros Adnoddau ddatgelu lefelau’r sbwriel a’r malurion ar draws priffyrdd cyhoeddus y Fwrdeistref Sirol a sut mae'r lefelau hyn yn cymharu dros y pum mlynedd ddiwethaf?

Ymateb


Bob blwyddyn caiff adroddiad annibynnol LEAMS - (System Rheoli Archwiliad Amgylcheddol Lleol) ei gynhyrchu ynghylch glendid ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn dilyn arolygon ar hap gan Cadw Cymru'n Daclus. Cynhyrchir yr adroddiad hwn ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ond mae hefyd yn cymharu â ffigurau cenedlaethol gan fod Cadw Cymru'n Daclus yn cynnal yr arolygon hyn ledled Cymru.

Mae’r arolygon a gynhelir gan Cadw Cymru'n Daclus yn graddio’r ardaloedd / strydoedd a arolygwyd yn ôl categorïau glendid A i D. Y strydoedd gradd B ac uwch yw'r strydoedd y mae aelodau'r cyhoedd yn eu hystyried i fod â lefel glendid dderbyniol.

Felly mae % y strydoedd sy'n sgorio B neu'n uwch wedi dod yn un o'r mesuriadau allweddol o ganfyddiad glendid (y sgôr uchaf yw’r gorau).

Isod ceir graff a ddarparwyd gan Cadw Cymru'n Daclus sy'n cofnodi canran y strydoedd sydd ar y lefel glendid derbyniol ym Mhen-y-bont ar Ogwr o un flwyddyn i’r llall. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gofnodwyd, cofnododd yr awdurdod ei sgôr ail orau hyd yma.

Mae'r graff hefyd yn dangos y ffigurau cyfartalog a gofnodwyd ar gyfer Cymru gyfan er mwyn cymharu.




Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas

A oes gan y Dirprwy Arweinydd unrhyw syniadau sut y gallai'r Cyngor gefnogi grwpiau gwirfoddol ar draws y Fwrdeistref Sirol?

Ymateb

Mae gan yr Awdurdod hanes da iawn o ran cefnogi Grwpiau Cymunedol yn nhermau casglu sbwriel, ac mae llawer ohonynt wedi dod ymlaen ers y pandemig ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol gan ei fod yn annog pobl i fynd allan, gwella eu hiechyd a'u lles drwy ymarfer corff a chwrdd â phobl eraill mewn cymunedau cyfagos. Roedd enghreifftiau i gyfeirio atynt, megis Ymgyrch 'Love it Don't Trash it.' Roedd y Cyngor hefyd wedi ymuno â Chigfrain Pen-y-bont ar Ogwr i ddibenion casglu sbwriel ac ailgylchu.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, fod gwirfoddolwyr o gymunedau wedi dod ymlaen fel gwirfoddolwyr ar gyfer casglu sbwriel. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r Cyngor roi'r offer angenrheidiol iddynt er mwyn iddynt gyflawni'r dasg hon yn ddiogel gyda chymorth grwpiau allweddol, er enghraifft "Cadw Cymru'n Daclus." Roedd digwyddiad i gael ei gynnal yn Wildmill dros y dyddiau nesaf, lle y byddai'r Cyngor a V2c yn arwain ymgyrch gasglu sbwriel ar yr ystadau yno ac i annog hyn mewn cymunedau eraill er mwyn eu cadw'n lanach.

Ychwanegodd ei bod yn amlwg oddi wrth y data bod casglu sbwriel wedi cynyddu ledled y Fwrdeistref Sirol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Bridie Sedgebeer

Yn aml mae problemau'n codi o ran sbwriel drwy Luchio Anghyfreithlon, gan grwpiau fel Yes Cymru yn benodol. A fyddai'r Cyngor yn ystyried tynnu'r graffiti hwn oddi ar eiddo ac arwyddbyst ac yna anfon y bil am hyn i'r drwgweithredwyr yn unol â hynny.

Ymateb

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai'r Cyngor yn cymryd camau priodol yn erbyn hyn a gofynnodd i'r Aelod gadarnhau'r lleoliad lle roedd hyn wedi digwydd.

580. RHYBUDD O GYNNIG A WNAED GAN Y CYNGHORYDD RL PENHALE-THOMAS

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan yr Aelod uchod: -

**"Mae'r cyngor hwn yn cydnabod:**

- llwyddiant y cynllun Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru
- ymdrechion Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim trwy gydol gwyliau'r ysgol yn ystod pandemig Covid hyd at 31 Awst 2021
- buddion sylweddol a niferus pryd ysgol iach, cytbwys o ran maeth, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, iechyd meddyliol a chorfforol a gordewdra mewn plentyndod
- y data a gasglwyd gan Grŵp Gweithredu Tlodi Plant (Cymru) oedd yn tynnu sylw at y 129,000 o blant oed ysgol sy'n byw o dan y llinell dlodi yng Nghymru, ond nad yw dros 55,000 yn gymwys, yn bennaf oherwydd bod eu rhieni mewn swyddi â chyflog isel sy'n mynd â hwy dros y trothwy cymhwysedd
- yr effaith ddifrifol y bydd tynnu'n ôl y codiad o £20 yn y Credyd Cynhwysol yn ei chael ar y teuluoedd mwyaf agored i niwed ledled y fwrdeistref sirol

**Mae'r cyngor hwn yn credu:**

- Ei bod yn annerbyniol mewn cymdeithas fodern fod plant yn dal i fod yn llwgu

**Mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i:**

- ymestyn ei bolisi cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i gynnwys pob plentyn y mae ei deulu'n derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau cyfatebol
- ymestyn ei bolisi cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i gynnwys pob plentyn nad oes gan ei deulu hawl i arian cyhoeddus
- cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth gyffredinol o brydau ysgol am ddim

**Mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU:**

- i dynnu'n ôl y gostyngiad arfaethedig yn y codiad mewn Credyd Cynhwysol."

Roedd y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gefnogi gan y cyd-lofnodwyr, y Cynghorwyr Alex Williams a Malcolm James.

Yn y cyfarfod, rhoddodd cynigydd y Cynnig ac un o'r Aelodau oedd yn ei gefnogi y cyflwyniadau pellach a ganlyn i ategu hyn.

*Cynigydd:* Yng Nghymru, mae mwy o blant mewn tlodi yn colli allan ar brydau ysgol am ddim o gymharu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y ffigur hwnnw yw 55,000 o blant - dyna 42 y cant o blant oed ysgol sydd mewn tlodi yng Nghymru ac yn colli allan ar ginio ysgol.
Y trothwy incwm yng Nghymru ar gyfer prydau ysgol am ddim yw £7,400. Ni allaf ddychmygu y gallai unrhyw aelod etholedig o'r awdurdod hwn gredu bod £7,400 yn swm sylweddol o arian wrth gael ei ystyried fel incwm blynyddol teulu.

Yng Ngogledd Iwerddon mae'r trothwy hwnnw bron yn ddwbl ar £14,000.

Ar ben hynny, mae'r meini prawf cyfredol yn afresymol i deuluoedd sydd ganddyn nhw ddim byd yn llythrennol - pobl heb fodd i droi at arian cyhoeddus megis y bobl sy'n ceisio lloches yn y DU sydd, i bob pwrpas, heb yr un geiniog pan fyddant yn cyrraedd, tra bo eu statws mewnfudo yn cael ei benderfynu.

Mae rhai plant yn bwyta cinio yn yr ysgol sy'n cynnwys brechdanau jam yn unig. Mewn gwlad sydd y bumed gyfoethocaf yn y byd, ni all hynny fod yn iawn ac nid oes modd ei gyfiawnhau.

Gall y we or-gymhleth, glymog, sef y system les a budd-daliadau bresennol, olygu bod plant sy'n derbyn y lefel isaf o gynhaliaeth plant yn dal ychydig dros y trothwy ac yn colli allan ar brydau ysgol am ddim. Mae'n gorfodi teuluoedd i fynd i fanciau bwyd ac, er y gallwn ddeall y rhyddhad y gall cefnogaeth banc bwyd ei gynnig, mae'r ffaith eu bod yn bodoli o gwbl yn gyhuddiad yn erbyn ein cymdeithas fodern.

Mae biliau cyfleustodau yn codi.
Yswiriant Gwladol yn codi.
Costau byw yn codi.

Ac mae'r codiad yn y Credyd Cynhwysol yn diflannu gan wneud pethau'n waeth byth.

Unwaith eto, y gaeaf hwn, bydd llawer o deuluoedd yn cael eu gorfodi i wneud y dewis rhwng gwresogi a bwyta. Y cyfan yn erbyn cefndir y rhagolygon ariannol ac economaidd mwyaf ansicr yn y cyfnod modern.

Nid yw'r buddion ond yn rhy amlwg i'w gweld. Nid yn unig werth maethol cinio iawn, ond datblygu sgiliau cymdeithasol a'r lefelau canolbwyntio uwch yn sesiynau'r prynhawn. Yn y tymor hir, rydym yn siarad am effeithiau ar gyfleoedd bywyd, gyda chysylltiadau profedig, yn ddiweddarach mewn bywyd, ag iselder ysbryd, digwyddiadau hunanladdol a datblygu salwch cronig.

Does dim rhaid inni ond edrych ar ein cymdogion mewn rhannau o Sgandinafia, lle mae prydau ysgol am ddim yn ddarpariaeth gyffredinol.

A'r gost? Mae clymblaid Gwrth-dlodi Cymru yn amcangyfrif mai'r gost o ehangu'r rhaglen fyddai £10.5 miliwn y flwyddyn, tra byddai darpariaeth gyffredinol yn nes at £140 miliwn. Yn dal yn llai nag 1% o gyfanswm cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru.

Efallai y bydd aelodau'n cofio bod mwy na £550 miliwn wedi'i ddarganfod hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol ychydig wythnosau yn ôl ar gyfer y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol; ac yn fwy diweddar, fe wnaeth swyddogion 'ddileu' £75 miliwn cysylltiedig â chamau olaf prosiect Ffordd Liniaru'r M4. Mae hwnnw'n brosiect nad yw wedi gweld un fodfedd o darmac wedi'i osod ond y gwariwyd £135 miliwn arno.

Yn rhy aml, fodd bynnag, mae'n achos o wybod cost popeth ond gwerth dim. Buddsoddwch nawr, arbedwch yn nes ymlaen a medi'r wobr o boblogaeth iachach a mwy llewyrchus.

*Eilydd:* Rwy'n siŵr y byddai'r holl Aelodau'n cytuno â nodau canmoladwy'r cynnig wrth gydnabod y cyflawniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud hyd yma ac yn ystod y pandemig, gan gynnwys clybiau brecwast am ddim, ond hefyd rydym yn galw arnynt i fynd ymhellach i gyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb, fyddai'n sicrhau nad oes yr un plentyn sy'n byw o dan y llinell dlodi yn llwgu, a byddai hyn, yn ei dro, yn gwella cyrhaeddiad addysgol.

Wrth gwrs, mae yna lawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad addysgol ond un ohonynt yw eisiau bwyd ac mae'n un y gall y Llywodraeth ar bob lefel fynd i'r afael ag ef. Dywedai maniffesto diwethaf Llafur Cymru yn gywir "ei bod yn annerbyniol mewn cymdeithas fodern i blant fod yn dal i fod eisiau bwyd".

Mae'n hollol amlwg i mi pe bai'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu hymestyn i gynnwys pob plentyn o deuluoedd sy'n derbyn credyd cynhwysol neu gyfwerth a theuluoedd heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus, y byddai'r sefyllfa hon yn cael ei datrys.

At hynny, cytunaf y dylid cynnal dadansoddiad cost a budd i ddarparu prydau ysgol am ddim yn gyffredinol. Drwy wneud hyn, gellid hefyd leihau'r canfyddiad bod yna stigma ynglŷn â derbyn prydau ysgol am ddim.

Gallem ni fel Cyngor ddechrau trwy wneud dadansoddiad cost a budd o'r hyn y byddai'n ei gostio i ni fel awdurdod lleol i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn oed ysgol yn y Cyngor ac wedyn lobïo Llywodraeth Cymru am arian pellach i ddarparu hyn o'r cyllid canolog.

A hefyd, byddwn yn awgrymu y gallai mwy gael ei wneud gan ein hawdurdod lleol i adnabod y teuluoedd a dangos iddynt fod yna ffordd i gael cefnogaeth gyfrinachol os ydynt yn araf i wneud cais am brydau ysgol am ddim oherwydd y stigma canfyddedig sydd ynghlwm wrtho. Efallai ei bod yn bryd cynnal ymgyrch newydd i gael cymaint o bobl gymwys ag sydd modd i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Yn olaf, fel y bydd yr Aelodau’n gwybod, mae pêl-droediwr Manchester United, Marcus Rashford, wedi bod yn eiriolwr proffil uchel dros ddarparu prydau ysgol am ddim ac wedi annog Llywodraeth y DU i gadw’r codiad o £20 yn y Credyd Cynhwysol i atal miloedd o blant rhag mynd heb fwyd. Mae rhai ASau, hyd yn oed ar feinciau’r Ceidwadwyr, yn pwyso ar Boris Johnson i gadw’r codiad yn y Credyd Cynhwysol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, ac felly gobeithio y gall Cynghorwyr Ceidwadol yn yr awdurdod lleol hwn hefyd gefnogi’r cynnig hwn heddiw.

Mae'n bryd inni fel arweinwyr cymunedol ym Mhen-y-bont ar Ogwr gymryd safiad mwy gweithredol i lobïo uwch wleidyddion ym Mae Caerdydd a San Steffan i sicrhau newid polisi cenedlaethol a dod â sgandal tlodi bwyd plant i ben. Felly anogaf yr holl Aelodau i gefnogi cynnig y Cynghorydd Penhale-Thomas.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio - werth prydau ysgol a oedd yn dyddio'n ôl yn ôl statud i 1921. Yn 2001 cadarnhaodd fod y Llywodraeth Lafur yn rhoi gofynion maethol sylfaenol yn ôl mewn prydau ysgol. Yn ystod y pandemig roedd y Cyngor yn gwerthfawrogi prydau ysgol ac yn ystod cyni roedd prydau ysgol am ddim yn bwysig iawn i'r rheiny oedd â hawl i'w derbyn. Ychwanegodd fod Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu'r meini prawf ar gyfer prydau ysgol am ddim ac yn ddiweddarach heno, byddai Llywodraeth y DU yn pleidleisio ar p’un a ddylid gwneud y codiad o £20 yn y Credyd Cynhwysol yn barhaol ai peidio. Felly, gyda'r pethau hynny mewn cof, teimlai fod y Rhybudd o Gynnig yn bwysig iawn ac yn un yr oedd yn ei gefnogi â’i holl galon.

Hefyd rhoddodd Aelodau pellach eu cefnogaeth i'r Rhybudd o Gynnig.

Cytunodd yr aelodau i gael pleidlais wedi'i chofnodi ar y Rhybudd o Gynnig, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn: -

Dros:

Y Cynghorwyr A Aspey, T Beedle, JP Blundell, M Clarke, N Clarke, R Collins, HJ David, P Davies, DK Edwards, J Gebbie, CA Green, G Howells, D Lewis, JE Lewis, JR McCarthy, D Patel, B Sedgebeer, CE Smith, JC Spanswick, R Thomas, T Thomas, E Venables, KJ Watts, A Williams, AJ Williams, HM Williams, J Williams, RE Young = **28 Pleidlais**

Yn erbyn:

Y Cynghorwyr T Giffard, A Pucella, K Rowlands, S Vidal = **4 Pleidlais**

Ymatal rhag Pleidleisio:

**Dim.**

PENDERFYNWYD: Nodi bod y Rhybudd o Gynnig uchod wedi ei gefnogi a'i gario drwy bleidlais mwyafrif clir.

581. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:05